# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 1 E+W

FFRAMWAITH STRATEGOL AR GYFER ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL

*Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil*

### 16 Adolygu'r cynllun strategol E+W

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio eu datganiad o dan adran 13(2) ar ôl i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy o dan adran 15(5), rhaid i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol.

(2) Caiff y Comisiwn adolygu ei gynllun strategol ar unrhyw adeg arall.

(3) Caiff y Comisiwn ddiwygio ei gynllun strategol ar ôl adolygiad o dan is-adran (1) neu (2) os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

(4) Os yw'r Comisiwn yn diwygio ei gynllun strategol, mae adran 14 yn gymwys mewn perthynas â diwygio'r cynllun fel y mae'n gymwys mewn perthynas â llunio cynllun.

(5) Rhaid i'r Comisiwn anfon ei gynllun strategol diwygiedig at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo—

- (a) pan fo'r diwygio o ganlyniad i adolygiad o dan is-adran (1), cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r diwygiadau i'w datganiad, neu
- (b) pan fo'r diwygio o ganlyniad i adolygiad o dan is-adran (2), cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(6) Mae is-adrannau (2) i (7) o adran 15 yn gymwys i gynllun a ddiwygir o dan yr adran hon fel y maent yn gymwys i gynllun a lunnir o dan adran 14.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 148(2)**

**I2** A. 16 mewn grym ar 1.4.2024 gan O.S. 2023/919, **ergl. 4(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 16.